

Canllaw Grantiau Chwaraeon RhCT

Cronfa Deddf Eglwys Cymru (sy'n cael ei gweinyddu gan Adran Adfywio a Chynllunio CBS Rhondda Cynon Taf)

- Mae ar gael i grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Mae'n cynnig arian i sefydliadau ar gyfer gwariant cyfalaf a fydd yn cael effaith parhaol.
- Mae'r Gronfa'n gweithredu ar sail rhaglen dreigl. Does dim dyddiadau cau penodol - mae modd cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg.
- Cam un: mynegi diddordeb - amlinelliad byr o'r sefydliad a'r prosiect.
- Cam dau: y cais llawn - cais cynhwysfawr gyda gwybodaeth fanwl am y prosiect.
- Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 01443 495151 neu e-bostiwch: Adfywio@rctcbc.gov.uk

TRIVALLIS (Cartrefi RhCT gynt)

- Grant hyd at £5,000 ar gyfer prosiectau sy'n bodloni o leiaf un o'r themâu cyllido canlynol:
 - Cynhwysiad Cymdeithasol, Iechyd a Lles, Dysgu a Chyflogadwyedd, Gwelliannau Amgylcheddol Cynaliadwy.
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.trivallis.co.uk/grants, ffoniwch 01443 494678 neu e-bostiwch grants@trivallis.co.uk

Grant Cymunedol Meysydd Glo (Cymru)

- Mae grantiau o £500 i £7,000 ar gael i fudiadau cymunedol a gwirfoddol mae modd iddyn nhw ddangos yn gryf y bydd grant yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n byw yng nghymunedau Meysydd Glo Cymru.
- Rhaid i geisiadau ddangos eu bod yn bodloni o leiaf un o'r themâu canlynol:
 - Creu swyddi a chymorth cyflogaeth, Datblygu mentrau cymdeithasol, Sgiliau a hyfforddiant, Adeiladau cymunedol, Mynd i'r afael â thlodi, Iechyd a Lles.
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.coalfields-regen.org.uk/where-we-work/wales/, ffoniwch 01443 404455 neu e-bostiwch wales@coalfields-regen.org.uk

Cronfa grant 'Game On Gear' – gyda chefnogaeth Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

- Nod y gronfa yma yw cefnogi gweithgareddau chwaraeon sy'n cynyddu cyfranogiad gweithredol unigolion o gymunedau glofaol cynt difreintiedig.
- Mae dwy lefel i'r grant: ceisiadau trac cyflym o dan £500 a cheisiadau o £500 neu drosodd. Mae'r ddau grant yn darparu cyllid ar gyfer cit chwaraeon newydd.
- Yn benodol, maen nhw'n awyddus i dderbyn ceisiadau gan grwpiau sy'n cefnogi pobl ifanc 13-19 oed.
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.gameonwales.org neu ffoniwch 01443 495938.

Cronfeydd Fferm Wynt y Maerdy a Threorci

- Mae'r gronfa'n cael ei chefnogi gan Fferm Wynt y Maerdy ym mlaen Cwm Rhondda.
- Mae'r fferm wynt yn ariannu'r ddwy gronfa gymunedol yn gytbwys ac mae'r ddwy gronfa gymunedol yn dyrannu eu grantiau trwy bleidlais ddemocrataidd y trigolion lleol.
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.treorchywindfund.co.uk neu www.maerdywindfund.co.uk

Cronfa Gymunedol Pen Y Cymoedd

- Mae'r gronfa yma yn cael ei chefnogi gan Brosiect Ynni Gwynt Pen Y Cymoedd.
- Mae modd i ardaloedd penodol yn Rhondda Cynon Taf wneud cais. Ewch i www.pencymoeddcic.cymru/wp-content/uploads/2017/04/AOB-Towns-and-Villages-PDF-1-1.pdf am eglurder.
- Mae dau grant ar gael: y Gronfa Ficro (hyd at £5,000) a'r Gronfa Weledigaeth (dros £5,000).
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.pencymoeddcic.cymru

Ymddiriedolaeth Gymunedol Cod Post

- Cafodd y grant yma ei sefydlu yn 2014 i gefnogi prosiectau sydd o fudd i les meddyliol a / neu gorfforol y gymuned.
- Mae grwpiau cymunedol neu wirfoddol cyfansoddedig, mentrau cymdeithasol a Chwmnïau Buddiannau Cymunedol yn gymwys i wneud cais am hyd at £2,000.
- Mae modd i elusennau wneud cais am hyd at £20,000.
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.postcodecommunitytrust.org.uk/

Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

- Mae'r ymddiriedolaeth yn darparu cefnogaeth i brosiectau sy'n ysbrydoli ledled Cymru.
- Mae grant rhanbarthol sy'n croesawu ceisiadau ym maes chwaraeon. Mae'r grant yma hyd at £7,500 ac mae'n cefnogi sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth i ranbarth.
- Mae yna grant lleol hefyd sy'n croesawu ceisiadau ym maes chwaraeon. Mae'r grant yma hyd at £2,500 ac mae'n cefnogi sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth i gymuned.
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.millenniumstadiumtrust.org.uk/

Cist Gymunedol Chwaraeon Cymru

- Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at **£1,500** mewn unrhyw gyfnod o 12 mis ar gyfer gweithgareddau sy'n cynyddu cyfranogiad neu'n codi safon y gweithgareddau sy'n bodoli eisoes.
- Mae modd i unrhyw grŵp wneud cais, cyhyd â bod gan y grŵp gyfrif banc yn ei enw.
- Mae Chwaraeon RhCT yn cynnig sesiynau cymorth galw heibio sy'n cynorthwyo sefydliadau gyda'u cais.
- Mae ceisiadau yn cael eu gwneud ar-lein ar www.sport.wales/cyllid-a-chefnogaeth

Grantiau Datblygu Chwaraeon Cymru

- Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn cynnig Grant Datblygu o hyd at £25,000 ar gyfer prosiectau mwy. Mae hyn ar gael i grwpiau cyfansoddedig sy'n rhedeg prosiect i gael rhagor o bobl i ymarfer corff yn fwy aml.
- Mae modd i unrhyw grŵp wneud cais, cyhyd â bod gan y grŵp gyfrif banc yn ei enw.
- Maen nhw'n argymhell yn gryf fod sefydliadau'n cysylltu â Chwaraeon RhCT a'u Corff Llywodraethol Cenedlaethol cyn gwneud cais.
- Mae ceisiadau yn cael eu gwneud ar-lein ar www.sport.wales/cyllid-a-chefnogaeth

Arian i Bawb Cymru

- Mae Arian i Bawb yn rhaglen grantiau sy wedi'i chefnogi gan y Gronfa Loteri Fawr a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Prif nod y rhaglen yw ariannu prosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymuned leol, gan ddod â nhw at ei gilydd i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, a'u mwynhau. Mae modd i'r gweithgareddau yma ymwneud â threftadaeth, elusennau, iechyd, addysg, yr amgylchedd, yn ogystal â gweithgareddau eraill.
- Caiff grantiau gwerth rhwng £300 a £10,000 eu dyfarnu i ymgeiswyr llwyddiannus.
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.cronfaloterifawr.org.uk/global-content/programmes/wales/awards-for-all-wales

Cronfa Loteri Fawr – Pawb a'i Le

- Mae dwy lefel i'r cyllid yma: Canolig (£10,001 i £100,000) a Mawr (£100,001 i £500,000)
- Mae grantiau ar gael i fudiadau gwirfoddol, mudiadau cymunedol neu fudiadau'r sector cyhoeddus.
- Mae modd iddo ariannu costau cyfalaf a reffeniwr.
- Am ragor o wybodaeth ewch i <https://www.biglotteryfund.org.uk/welsh/funding/programmes?min=10000&location=wales>

Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (RhCGC) sy'n cael ei chynnig gan Lywodraeth Cymru

- Mae'n gynllun grant cyfalaf y mae modd ei ddefnyddio i wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned, ac sy'n cael eu defnyddio'n aml ganddyn nhw.
- Mae'n agored i grwpiau cymunedol a gwirfoddol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol.
- Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel, grantiau bach o dan £25,000 a grantiau mwy hyd at £250,000.
- Am ragor o wybodaeth ewch i <https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/community-facilities-programme/?skip=1&lang=cy>